

Cronfa Bensiwn Dyfed

Cynllun Busnes

2025 - 2028

Cynnwys

Y Gronfa	2
Sut y cynhelir y Gronfa.....	2
Y Pwyllgor Pensiwn	2
Llywodraethu'r Gronfa.....	3
Y Prif Gyfrifoldebau	3
Datganiad Cenhadaeth	4
Prif Amcan y Gronfa	5
Cwsmeriaid y Gronfa.....	5
Cyflogwyr Aelodau'r Cynllun	5
Cyrff Rheoleiddio	5
Dogfennau Polisi Allweddol	6
Amcanion Busnes y Gronfa	6
Buddsoddiadau	7
Ystadegau Allweddol.....	8
Cyllideb.....	8
Blaenoriaethau.....	8
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed	10

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed, ac mae'r cynllun busnes yn manylu ar flaenoriaethau a meysydd ffocws y Gronfa ar gyfer 2025-26, 2026-27 a 2027-28.

Mae'r Cynllun yn galluogi'r Gronfa i ganolbwyntio ar gyrraedd targedau cytûn ac yn helpu aelodau o'r staff i weld sut maent yn cyfrannu at lwyddiant cyffredinol Cronfa Bensiwn Dyfed.

Y Gronfa

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn un o blith 86 o gronfeydd sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn Lloegr a Chymru.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu a benodwyd yn statudol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae'r Cyngor yn gweinyddu buddion y Gronfa ac yn buddsoddi ei hasedau.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn gweithredu fel y gweinydd ar gyfer cynlluniau pensiwn yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân nad ydynt wedi eu cyllido, a hynny ar gyfer Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae aelodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Gronfa yn cynnwys 55,804 o aelodau (ar 31 Mawrth 2024) o blith 48 o awdurdodau cyflogi sy'n cyfrannu.

Sut y cynhelir y Gronfa

Caiff yr holl faterion pensiwn eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn, ac mae ei aelodau'n gweithredu fel 'lled-ymddiriedolwyr'.

Mae'r Pwyllgor yn dirprwyo'r gwaith o gynnal y Gronfa Bensiwn o ddydd i ddydd i'r Swyddog Adran 151 ac i'r timau Gweinyddu a Buddsoddi Pensiynau.

Mae'r timau Gweinyddu a Buddsoddi Pensiynau yn gyfrifol am bob agwedd ar y Gronfa, yn cynnwys gweinyddu, cyfrifyddu, buddsoddi a llywodraethu.

Sefydlwyd y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 1 Ebrill 2015 yn unol â gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae ganddo rôl oruchwylio/gynorthwyo gyda'r Awdurdod Gweinyddu o ran sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion a sicrhau bod y Gronfa yn cael ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon (gweler isod).

Nod Cronfa Bensiwn Dyfed yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n dryloyw, yn effeithlon ac yn gefnogol i'r holl randdeiliaid.

Y Pwyllgor Pensiwn

Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

Y Cyngorydd Elwyn Williams

Aelodau'r Pwyllgor


Y Cyngorydd Dai Thomas

Y Cyngorydd Philip Warlow

Y Cyngorydd Neil Lewis (Aelod Dirprwyol o'r Pwyllgor)

Llywodraethu'r Gronfa

Gall y berthynas rhwng Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a rheoli gweithredol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin gael ei hamlygu fel a ganlyn. Nodir manylion y modd y llywodraethir y Gronfa yn y **Polisi Llywodraethu**.



- Mae'r ymgynghorydd buddsoddi annibynnol yn cynghori'r Pwyllgor ar bob agwedd ar reoli buddsoddiadau, mewn cyfarfodydd bob chwarter a chyfarfodydd ad hoc.
- Mae'r Ceidwad (Northern Trust) yn gyfrifol am gadw asedau buddsoddi'r Gronfa'n ddiogel, yn trefnu setlo pryniannau a gwerthiannau, ac yn casglu incwm y buddsoddiadau a ddelir.
- Mae'r Actiwari (Mercer) yn prisio'r gronfa, sy'n ofynnol yn statudol, gan gynnwys pennu cyfraddau cyfrannu'r cyflogwr, a llunio atodlenni IAS 19 a chyngor actiwaraid cyffredinol arall.
- Mae'r cwmni rheoli perfformiad yn adolygu perfformiad y rheolwyr buddsoddi mewn perthynas â meincnodau y cytunwyd arnynt.

Y Prif Gyfrifoldebau

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau gweinyddu pensiynau yn cynnwys cyfrifo a thalu buddion. Sicrhau ar y cyd â'r holl randdeiliaid bod y gronfa ddata ar gyfer yr aelodau yn gwbl gywir.
- Gweithredu'r strategaeth gyllido i sicrhau bod asedau'r Gronfa yn ddigonol i ddiwallu'r rhwymedigaethau pensiwn.
- Buddsoddi asedau'r Gronfa, gweithredu'r strategaeth fuddsoddi, a rheoli rheolwyr buddsoddiad allanol.
- Rheoli asedau'n fewnol a hybu buddsoddi cyfrifol.
- Diogelu a chyfrifyddu asedau'r Gronfa.
- Paratoi cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Gronfa.
- Darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch materion pensiwn i gyflogwyr a phobl eraill.

Datganiad Cenhadaeth

Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw darparu cronfa bensiwn ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon sy'n darparu tawelwch meddwl ariannol i'n haelodau. Rydym wedi ymroi i reoli'r adnoddau a ymddiriedir ynom gyda'r lefel uchaf o uniondeb, tryloywder ac atebolrwydd.

Egwyddorion Craidd

- **Diogelwch:** Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau diogelwch ariannol hirdymor pensiynau ein haelodau. Rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau buddsoddi darbodus a rheoli risgiau'n effeithiol i ddiogelu asedau'r gronfa er sefydlogrwydd cyfradd y Cyflogwr.
- **Cynaliadwyedd:** Ein nod yw cynnal cronfa bensiwn gynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll amrywiadau economaidd a newidiadau demograffig. Mae ein hymagwedd yn canolbwyntio ar gydbwysu anghenion aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol, gan sicrhau tegwch rhwng y cenedlaethau.
- **Effeithiolrwydd:** Rydym yn ymdrechu i weithredu'r gronfa bensiwn yn effeithlon, gan leihau costau gweinyddol a mwyhau buddion i'n haelodau ar yr un pryd. Ein nod yw darparu gwerth am arian heb gyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaeth.
- **Aelod-Sentrig:** Mae ein haelodau wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi ymroi i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, cyfathrebu clir, a gwybodaeth amserol i gefnogi ein haelodau i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hymddeoliad.
- **Buddsoddi Cyfrifol:** Rydym yn credu mewn buddsoddi cyfrifol a moesegol. Mae ein strategaeth fuddsoddi yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) i hyrwyddo cynaliadwyedd ac effaith gadarnhaol.
- **Tryloywder:** Rydym yn ymroddedig i fod yn dryloyw yn ein gwaith. Rydym yn darparu diweddariadau ac adroddiadau i'n haelodau a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn o berfformiad a llywodraethu'r gronfa.
- **Dull Cydweithredol:** Rydym yn cydweithio â chyflogwyr, rheoleiddwyr, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y gronfa bensiwn yn diwallu anghenion yr holl bartïon cysylltiedig. Ein nod yw adeiladu partneriaethau cryf sy'n cefnogi llwyddiant hirdymor y gronfa.

Nodau strategol

- **Gwella Profiad Aelodau:** Byddwn yn ceisio gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'n haelodau yn barhaus, gan ddefnyddio technoleg ac arloesedd i wella eu profiad a'u hymgysylltiad â'r gronfa.
- **Gwella Gwytnwch Ariannol:** Byddwn yn dal i wella gwytnwch ariannol y gronfa, gan gynnwys arallgyfeirio buddsoddiadau ac arferion rheoli risg cadarn.
- **Hyrwyddo Llesiant Ariannol:** Byddwn yn cynnig cymorth ac adnoddau addysgol i helpu ein haelodau i ddeall eu buddion pensiwn a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus ar gyfer eu hymddeoliad.
- **Gwella Integreiddiad ESG:** Byddwn yn parhau i wella ein hymrwymiad i fuddsoddiad cyfrifol trwy integreiddio ffactorau ESG i'n prosesau buddsoddi a'n penderfyniadau.
- **Meithrin Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd i ddeall eu hanghenion a'u safbwyntiau, gan feithrin amgylchedd cydweithredol sy'n cefnogi amcanion y gronfa.

Casgliad

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn darparu pensiwn diogel a chynaliadwy i'n haelodau. Trwy ymrwymo i'n hegwyddorion craidd a'n nodau strategol, rydym yn anelu at ddarparu cronfa bensiwn sydd nid yn unig yn diwallu anghenion cyfredol ein haelodau ond sydd hefyd yn sicrhau eu llesiant ariannol hirdymor. Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i arloesi, gwella ac addasu ym maes pensiynau, sy'n newid o hyd, gan ddefnyddio ein cenhadaeth fel sail i wasanaethu ein haelodau gyda rhagoriaeth ac uniondeb.

Prif Amcan y Gronfa

Datblygu ein gwasanaethau'n barhaus drwy geisio:


- Darparu gofal cwsmeriaid rhagorol
- Rhoi cymorth i aelodau o'r staff a'u datblygu
- Sicrhau bod yr asedau'n diwallu rhwymedigaethau'r cynllun
- Lleihau'r risg bod cyfradd gyfrannu'r cyflogwr yn anwadal
- Sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg

Cwsmeriaid y Gronfa

Aelodaeth y Gronfa

Rhennir aelodau'r Gronfa yn bedwar categori. Mae'r tabl isod yn dangos aelodaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2024.

Aelodau Gweithredol (Cyfranwyr)	19,619
Pensiynwyr	16,721
Pensiynwyr Gohiriedig	16,472
Ymadawyr heb benderfynu	2,992
Cyfanswm Aelodaeth	55,804



Cyflogwyr Aelodau'r Cynllun

Mae'r Gronfa'n dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan ei chyflogwyr er mwyn rhoi a chynnal gwasanaeth effeithiol i'r aelodau. Roedd gan Gronfa Bensiwn Dyfed 48 o awdurdodau cyflogi yn cyfrannu yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31ain Mawrth 2024.

Cyrff Rheoleiddio

Ymhlith y prif gyrff y mae'r Gronfa'n ymgysylltu â hwy y mae:

- Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol – y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Cyllid a Thollau ei Fawrhydi
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Bwrdd Cyngori'r Cynllun

Dogfennau Polisi Allweddol

Mae dogfennau polisi allweddol yr hoffai'r darllenwydd gyfeirio atynt o bosibl ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed (www.cronfabensiwndyfed.org.uk):

- Y Strategaeth Weinyddu a'r Safonau Gwasanaeth
- Siarter Cwsmeriaid
- Datganiad Strategaeth Gyllido
- Datganiad Strategaeth Fuddsoddi
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Datganiad Polisi Cyfathrebu
- Datganiad Polisi a Chydymffurfiaeth Llywodraethu
- Polisi Rheoli Risg
- Polisi Gwybodaeth a Sgiliau
- Polisi Gordaliadau
- Polisi Tramgwyddau
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Cynllun Gwella Data
- Polisi Cytundeb Derbyn


Amcanion Busnes y Gronfa

1. Sicrhau y rheolir ac y llywodraethir Cronfa Bensiwn Dyfed yn effeithiol, a hynny mewn modd sy'n hybu gwelliant parhaus drwy gael mwy o werth am yr arian, gofalu yr hyrwyddir gwasanaeth cwsmeriaid gwyb, a sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion o ran rheoleiddio a'r arferion gorau.
2. Sicrhau bod holl faterion ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael eu gweinyddu, eu cyfrifyddu, a'u cyflwyno yn y modd priodol.
3. Recriwtio, hyfforddi, meithrin, a chadw gafael ar aelodau staff cryf eu cymhelliant sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol o ran proffesiynoldeb, rheoli, a rhoi sylw i'r cwsmeriaid.
4. Bod yn esiampl dda a chydabyddedig o'r arferion gorau ymysg Cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a chael ein cydnabod gan ein cwsmeriaid am ddarparu gwasanaeth rhagorol.
5. Sefydlu meincnod dyrannu asedau strategol, y disgwylir iddo roi bod i'r enillion gofynnol ar fuddsoddiadau yn y tymor hir, gan dderbyn lefel y risg sydd ynghlwm wrth wneud hynny.
6. Sicrhau bod asedau'r Gronfa yn cyfateb i'w rhwymedigaethau neu'n fwy na'r rheiny, a thrwy hynny osgoi neu leihau anwadlwch cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr.
7. Darparu gwasanaeth gweinyddu buddion sy'n effeithiol, yn ddarbodus ac yn hwylus i'r cwsmeriaid, ac sy'n sicrhau:
 - Bod buddion y cynllun yn cael eu cyfrif a'u talu'n gywir ac yn brydlon;
 - Bod cofnodion holl aelodau'r Gronfa yn cael eu cynnal a'u cadw'n fanwl gywir; a
 - Bod y cyfathrebu sy'n digwydd ag aelodau'r Gronfa a'r cyrff cyflogi yn effeithiol, bod materion yn cael eu hegluro'n deg iddynt, a'u bod yn cael cymorth effeithiol.

Buddsoddiadau

Mae amcanion perfformio y Gronfa'n cael eu crynhoi yn ei meincnod strategol. Mae'r darluniau canlynol yn dangos strategaeth fuddsoddi a meincnodau'r Gronfa.

Dosbarth Asedau	Meincnod (%)
Ecwitiâu	60.0
Incwm Sefydlog	10.0
Eiddo Tirol	15.0
Seilwaith	5.0
Asedau Amgen	5.0
Credyd Preifat	5.0
Cyfanswm	100.0



Caiff yr ymagwedd at fuddsoddi asedau'r Gronfa ei seilio ar y polisïau a'r arferion a bennir yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, y Datganiad Strategaeth Gyllido a'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol.

Mae gan y Gronfa ystod o reolwyr, gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac ymgynghorwyr arbenigol i gynnal yr amcanion buddsoddi a nodir yn ei Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Mae'r rheolaeth fewnol yn rhoi cyngor am reoli buddsoddiadau, hyrwyddo'r arferion gorau, a chymryd camau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Mae'r arferion gorau'n ymwneud â:

- Egwyddorion Myners
- Safonau proffesiynol a safonau'r diwydiant
- Sylwadau, codau, ac argymhellion Archwilio Cymru a chyrff proffesiynol eraill
- Rheoliadau rheoli buddsoddiadau
- Safonau cyfrifyddu
- Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phensiynau



BlackRock

Schroders

**PARTNERS
GROUP**

Ystadegau Allweddol

Mae'r Gronfa wedi'i hariannu dros 100% fel y nodwyd yn y prisiad ar 31 Mawrth 2022

Prif gyfradd gyfrannu'r cyflogwyr - 19.8%

Yr Enillion ar Fuddsoddiadau - 10.9% yn 2023/24

Gwerth y Gronfa ar y Farchnad - £3,468 miliwn ar 31 Mawrth 2024

Cyllideb

Ebrill 2025 – Mawrth 2026	Cyllideb - £'000
Pensiynau Taladwy	105,006
Cyfandaliad, Buddion Marwolaeth, Trosglwyddiadau Allan	30,300
Ffioedd Gweinyddu	1,111
Treuliau Rheoli Buddsoddiadau	9,170
Adennill Costau Canolog	1,689
Gwariant	147,276
Cyfraniadau'r Gweithiwr	30,168
Cyfraniadau Cyflogwyr	81,994
Incwm ar Fuddsoddiadau	26,614
Trosglwyddiadau i mewn	8,500
Incwm	147,276

Blaenoriaethau

Gwaith i'w wneud – Datblygiadau/Yn y Flwyddyn

2025-26

- Cyflawni'r gwaith mewn perthynas â'r Prisiad Actiwaraid fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025.
- Gweithredu *Engage* yn lle Fy Mhensiwn Ar-lein.
- Adolygu ac aildendro'r contract Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol.
- Adolygu ac aildendro'r contract Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn.
- Trosglwyddo buddsoddiadau Eiddo Tirol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Ymgysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a chronfeydd eraill Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru i weithredu cynigion yr ymgynghoriad Addas ar gyfer y Dyfodol.

2026-27

- Adolygu a diweddarau dogfennau polisi'r gronfa.
- Gweithredu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr sy'n deillio o Brisiad Actiwaraid 2025 ar gyfer y pum cyflogwr mwyaf.
- Adolygu ac aildendro'r contract Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Actiwaraid, Buddion a Llywodraethu.
- Datblygu Datganiad y Strategaeth Gyllido.
- Adolygu'r Dyraniad Asedau Strategol a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

2027-28

- Adolygu a diweddarau dogfennau polisi'r gronfa.
- Gweithredu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr sy'n deillio o Brisiad Actiwaraid 2025 ar gyfer y cyflogwyr llai.

Gwaith i'w wneud – Parhaus/Bob Blwyddyn

- Gweithredu newidiadau o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol o ran y gronfa a chyfuno.
- Cwblhau cysoni data aelodau â'r hyn a gofnodwyd gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi mewn perthynas ag aelodaeth a contractiwyd allan.
- Parhau i hyrwyddo *Engage* (porth pensiwn ar-lein) i aelodau.
- Gweithredu system cyfnewid data i-Connect i lanlwytho a gwella trosglwyddo data.
- Sicrhau y cydymffurfir â chyflwyno cofrestru awtomatig yn unol â gofyniad y Ddeddf Pensiynau.
- Datblygu a diweddarau gwefan y Gronfa
- Adolygu'r taflenni ffeithiau presennol a'r llythyrau er mwyn gwella hwylustod darllen.
- Sicrhau bod sgorau Ansawdd Data mewn perthynas â data cyffredin a data sy'n benodol i'r cynllun a gyflwynir i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn cynyddu'n flynyddol.
- Cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol i gymryd rhan mewn Dangosfyrddau Pensiynau drwy ymgymryd â gwaith paratoi ar gyfer gofynion paru data parhaus a'u gweithredu.
- Mewn perthynas â Dyfarniad McCloud, cysoni a chywiro buddion aelodau'r cynllun gan ddefnyddio datblygiadau a gwelliannau o ran meddalwedd pan fyddant yn cael eu rhyddhau.
- Monitro cofrestr risg y Gronfa bob chwarter.
- Parhau i adolygu ôl troed carbon y Gronfa, gan gynnwys nodi rhagor o gyfleoedd buddsoddi carbon isel.
- Darparu atodlenni cyfrifyddu IAS19/FRS17 i gyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun.
- Llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa yn unol â dyddiadau cau statudol.
- Adolygu trefniadau llywodraethu a buddsoddi mewn perthynas â chyfuno asedau gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn.
- Monitro perfformiad y rheolwr buddsoddi bob chwarter.

Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed

E-bost	pensiynau@sirgar.gov.uk
Rhif ffôn	01267 224 893
Postio	Cyngor Sir Caerfyrddin Neuadd y Sir Caerfyrddin SA31 1JP